



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adolygiad thematig Estyn o
Gymraeg i oedolion: adolygiad o waith
y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 9863 1
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2017
WG27868

Teitl yr adroddiad: Adroddiad thematig Estyn - Adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Manylion yr adroddiad

Cynhaliodd Estyn adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i edrych ar waith cychwynol y Ganolfan Genedlaethol a'r cynnydd a wnaed ers ei sefydlu yn 2015. Mae'n ystyried sut y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn dylanwadu ar, arwain a rheoli'r datblygiadau yn y sector Cymraeg i Oedolion yn dilyn ad-drefnu'r ddarpariaeth yn genedlaethol yn 2016.

Crynodeb o'r prif gasgliadau

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu ei rôl yn dda fel llais cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sector, mae wedi gwella cysondeb ar draws nifer o agweddau gwaith ac wedi aildrefnu darpariaeth yn effeithiol ledled Cymru.

Argymhelliad 1 – ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Dylai'r Ganolfan Genedlaethol ddatblygu ei gweithdrefnau ar gyfer dwyn y darparwyr i gyfrif am eu perfformiad a'u cydymffurfriad â'r polisiau cenedlaethol.

Bydd swyddogion yn trafod prosesau monitro gyda'r Ganolfan i sicrhau ei bod yn darparu dull effeithiol o olrhain cynnydd darparwr ac yn cydymffurfio â pholisiau cenedlaethol.

Argymhelliad 2 – ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Dylai'r Ganolfan Genedlaethol fireinio ei strategaethau marchnata mewn cydweithrediad â darparwyr i dargedu mwy o ddarpar ddysgwyr ar draws pwyllgorau amrywiol Cymru.

Bydd swyddogion yn trafod strategaethau marchnata gyda'r Ganolfan i sicrhau bod y negeseuon y mae darparwyr a'r Ganolfan yn eu cyfleu, a hefyd ymgyrchoedd ehangach Llywodraeth Cymru, yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn cael yr effaith fwyaf posib.

Argymhelliad 3 – ar gyfer darparwyr Cymraeg i Oedolion

Dylai darparwyr roi'r polisiau a'r arferion a gyflwynwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar waith yn llawn.

Bydd swyddogion yn trafod prosesau monitro gyda'r Ganolfan i sicrhau ei bod yn darparu dull effeithiol o olrhain cynnydd darparwr ac yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol.

Argymhelliad 4

Dylai darparwyr wella eu dealltwriaeth o drefniadau a pholisïau llywodraethu'r Ganolfan Genedlaethol.

Bydd swyddogion yn trafod gyda'r Ganolfan sut y maent yn bwriadu gwella dealltwriaeth y darparwr ynghylch ei drefniadau a'i bolisïau llywodraethu.

Manylion cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 21 Mehefin 2017 a gellir ei weld ar wefan Estyn:
<https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig>